Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

The Voice of Cynghorau Cymuned a Threfin Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 8

Cod Ymddygiad: Aelodau a swyddogion

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi | Awst 2024 |
| Dyddiad Adolygu | Awst 2025 |

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

**Nodyn Datblygu Ymarfer 8 Un Llais Cymru**

**Cod Ymddygiad: Aelodau a swyddogion**

**Canllaw syml i Gynghorau Cymuned a Thref**

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **1. Rhagarweiniad** | | | |
| 1.1 Mae'n bwysig y gall pobl mewn bywyd cyhoeddus arddangos safonau moesegol uchel. Gellir olrhain hyn i egwyddorion bywyd cyhoeddus a gyflwynwyd gyntaf gan yr Arglwydd Nolan yn 1995.<br><br>Yr egwyddorion yw Anhunanoldeb, Unplygrwydd, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Didwylledd, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth.<br><br>Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.<br><br>Mae'r Nodyn Datblygu Ymarfer hwn yn disgrifio prosesau a roddwyd ar waith i | Mae'r egwyddorion hyn wedi cyfrannu at ddatblygu safonau mewn bywyd cyhoeddus a deddfwriaeth ddilynol.<br><br>Dylai cynghorau barchu gwerthoedd gweithredu'n agored a thryloyw a dylent gadw at, a modelu, yr ymddygiadau a safonau a osodir ar gyfer pob Aelod, fel y | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| atgyfnerthu safonau moesegol ymhlith Aelodau a Swyddogion Cynghorau Cymuned a Thref. | nodir yn y Cod Ymddygiad.<br><br>Mae gan Aelodau ddyletswydd hefyd i gynnal y gyfraith, gofalu'n briodol am adnoddau'r Cyngor a thrin eraill yn gyfartal a gyda pharch. | | |

| **Cam** | **Pwrpas** | **Amserlen** | **Amserlen yn gryno** |
|---|---|---|---|
| 2. **Cod Ymddygiad: Aelodau** | | | |
| 2.1 Cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ganllawiau statudol clir ar gyfer Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref ym mis Hydref 2022. | Cyfrannu at ddatblygu a chynnal safonau moesegol uchel. | Anogir pob Aelod i astudio'r canllawiau os na wnaethant hynny'n barod. | Astudiwch y canllawiau cyn gynted ag y bo modd. |
| | | | |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| 2.2 Mae disgwyl i Gynghorau fabwysiadu Cod Ymddygiad yn seiliedig ar Fodel God Ymddygiad.<br><br>Cyhoeddwyd y Model presennol yn 2016 ac fe'i diweddarwyd yn 2022 i gynnwys gwelliant dilynol yn ymwneud â'i ddefnyddio ar gyfer y Cyd Bwyllgorau Corfforaethol newydd. | Cyfrannu at ddatblygu a chynnal safonau moesegol uchel. | Gofalwch fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad. | Gofalwch fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad. Awgrymir y dylai Cynghorau uwchlwytho copi o'r Cod ar eu gwefannau. |
| 2.3 Rhaid i'r Cadeirydd a'r Aelodau lofnodi datganiad derbyn swydd, sy'n cynnwys addewid i gadw at y Cod Ymddygiad. Mae ffurflen arbennig ar gyfer gwneud hyn, a gynhwysir gydag Offeryn Statudol SI 2004/1508.<br><br>Mae cyfnod Cynghorwyr Cymuned a Thref yn parhau am bum mlynedd (neu os cânt eu hethol ran o'r ffordd drwy'r cylch, am weddill y cyfnod hwnnw'n unig) ac maent yn ymddeol ar y pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod arferol yr etholiad. Mae'r Cynghorwyr newydd etholedig yn cychwyn ar eu swydd (ar yr amod y gwnaethant ddatganiadau derbyn swydd) | Cadarnhau eu bwriad i gadw at y Cod.<br><br>Cynhwysir model ddatganiad yn y nodyn datblygu arfer hwn. Mae'r model yn adlewyrchu gofynion statudol. (Atodiad 1) | Rhaid i'r Cadeirydd lofnodi eu datganiad yn y cyfarfod lle y cânt eu hethol i'r rôl.<br><br>Rhaid i Aelodau eraill wneud eu datganiad yn neu cyn y cyfarfod cyntaf wedi cael eu hethol (neu eu cyfethol) oni bai fod y Cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hynny yn neu cyn cyfarfod diweddarach.<br><br>Rhaid i bob Aelod lofnodi'r datganiad, gan gynnwys unrhyw | Dylai'r Cadeirydd lofnodi'r datganiad wedi cael ei b/phenodi.<br><br>Dylai Aelodau eraill lofnodi'r datganiad yn neu cyn y cyfarfod cyntaf wedi cael eu hethol. |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| ar y diwrnod y mae eu rhagflaenwyr yn ymddeol (Deddf Llywodraeth Leol, 1972, Adran 16(3)). | | Aelodau a ail-etholir yn dilyn etholiad ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor. | |
| 2.4 Dylai pob Aelod ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Gall Un Llais Cymru ddarparu'r hyfforddiant hwn. | Sicrhau eu bod yn deall y Cod. | Mae Model Reolau Sefydlog yn awgrymu y dylid gwneud hyfforddiant o fewn chwe mis i dderbyn y swydd. | O fewn chwe mis i dderbyn y swydd. |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| 3. **Pwyllgorau Safonau** | | | |
| 3.1 Rhaid i Brif Gynghorau (h.y. Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol) benodi Pwyllgorau Safonau. Rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor fod yn Gynghorydd Cymuned neu Dref ar gyfer yr ardal. | Hyrwyddo safonau ymddygiad uchel, cynorthwyo Aelodau i gadw at y Cod, cynghori ar newidiadau i'r Cod, monitro'r ffordd | Mae'r Pwyllgor Safonau yn debygol o gyfarfod yn rheolaidd. | |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| | mae'n gweithio a threfnu hyfforddiant. | | |

| Cam | Pwrpas | Amserlen | Amserlen yn gryno |
|---|---|---|---|
| **4. Datganiadau o Fuddiannau** | | | |
| 4.1 Mae'r angen i Aelodau wneud datganiad pan mae ganddynt fuddiant mewn eitem ar yr agenda yn nodwedd gyffredin o drefniadau llywodraeth leol. Mae'n bwysig cynnal hyder y cyhoedd. | "Rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu lles y cyhoedd." (Ombwdsmon Gwasanaethau | Gan amlaf dylid datgan buddiannau ar ddechrau pob cyfarfod neu, os daw'n amlwg, yn ddiweddarach yn y cyfarfod.<br><br>Dylai Aelodau ddatgan buddiant bob tro y cyfyd, os ydynt wedi'i ddatgan yn barod ai peidio. | Dylid datgan y buddiant ar ddechrau'r cyfarfod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyhoeddus Cymru 2022) | | |
| 4.2 Disgrifir trefniadau manwl ynghylch Datganiadau o Fuddiannau yn Atodiad 2 i'r nodyn hwn. | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5. Cod Ymddygiad: Swyddogion** | | | |
| 5.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.<br><br>O dan adran 82(2) y Ddeddf, cyhoeddwyd Cod Ymddygiad ar yr ymddygiad a ddisgwylir gan rai o weithwyr awdurdodau megis Cynghorau Cymuned a Thref. Pwysleisir y Cod yn y Pecyn Cyllid & Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a ddatblygwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) a Llywodraeth Cymru.<br><br>(Bernir fod telerau penodi neu amodau cyflogaeth gweithwyr awdurdodau perthnasol y mae'r Cod Ymddygiad yn | Cyfrannu at ddatblygu a chynnal safonau moesegol uchel.<br><br>Gweithwyr yw prif ased unrhyw Gyngor, ac mae'n bwysig eu bod yn derbyn yr ymddiriedaeth a'r parch i gyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu mewn amgylchedd gwaith diogel. Mae hyfforddiant a datblygiad gweithwyr yn hollbwysig, ynghyd â chael systemau priodol ar waith i | Mae aelodau'n cael eu hannog i wneud yr hyfforddiant yn y Pecyn.<br><br>Cysylltwch ag Un Llais Cymru i gael rhagor o fanylion. | Dylech wneud yr hyfforddiant yn y Pecyn cyn gynted ag y bo modd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| berthnasol iddynt yn ymgorffori'r Cod Ymddygiad.)<br><br>Cyflwynir y Cod ar yr ymddygiad a ddisgwylir gan weithiwr cymwys awdurdod perthnasol yn yr Atodlen sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | ddarparu cydnabyddiaeth briodol, ac atebolrwydd o fewn fframwaith o bolisïau cyflogaeth effeithiol. ** | | |
| 5.2 Dylai pob aelod o staff gael copi o'r Cod Ymddygiad ar gyfer gweithwyr. | Bydd hyn yn helpu sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau fel cyflogydd. | Dylai pob aelod o staff dderbyn copi o'r Cod. Dylai staff newydd dderbyn copi yn ystod eu cyfnod cynefino. | Cyn gynted ag y bo modd ar ôl dechrau (ar gyfer staff newydd.) |

| **6. Perthnasoedd rhwng Aelodau a Swyddogion** | | | |
|---|---|---|---|
| 6.1 Mae perthnasoedd rhwng Aelodau a Swyddogion yn allweddol i lwyddiant cyngor lleol. Mae parch y naill at y llall yn rhan hanfodol o'r berthynas hon. | Mae llywodraethiant lleol ac arweinyddiaeth gymunedol effeithiol yn dibynnu ar berthnasoedd gwaith da rhwng Aelodau a Swyddogion. | Dylid mabwysiadu'r protocol os na wnaethpw(Yyd hynny'n barod. | Cyn gynted ag y bo modd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae rhai Cynghorau, sy’n aelodau o Un Llais Cymru, wedi llunio protocol ffurfiol i atgyfnerthu pwysigrwydd hyn. (ynghlwm) | | | |

** (Cymerwyd o’r Pecyn Cyllid & Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a ddatblygwyd ar y cyd gan Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) a Llywodraeth Cymru)

**Rhai awgrymiadau allweddol:**

- Gofalwch fod Aelodau yn llofnodi eu Datganiad Derbyn Swydd yn gywir. Gofalwch ei fod yn cadarnhau y byddant yn cadw at y Cod Ymddygiad.

- Gofalwch fod Aelodau yn ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

- Defnyddiwch y Pecyn Cyllid & Llywodraethiant.

- Gofalwch fod Aelodau yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd yn y Pecyn Gwaith.

- Gofalwch eich bod yn deall rôl y Pwyllgor Safonau. Pwy sy'n cynrychioli Cynghorau Cymuned a Thref ar eich Pwyllgor Safonau?
- Gofalwch eich bod yn deall a gweithredu'r rheolau ar Ddatganiadau o Fuddiannau.

- Gofalwch eich bod yn deall cyfrifoldebau swyddogion.

- Dylech fabwysiadu'r protocol rhwng Aelodau a Swyddogion.

- Yn olaf, dyma rai clipiau fideo sydd hefyd yn esbonio'r materion uchod.

  Standards of behaviour for councillors in Wales - YouTube
  Safonau ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru - YouTube

  Advice on how to complain about a councillor in Wales - YouTube
  Cyngor ar sut i gwyno am gynghorydd yng Nghymru - YouTube

  How councillors should behave and interact with people - YouTube
  Sut dylai cynghorwyr ymddwyn ac ymwneud â phobl - YouTube

**Atodiad 1**

**Adran 83, Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Datganiad Derbyn Swydd**

Yr wyf fi….(1)…… gan i mi gael fy ethol i swydd …(2)… (3)… yn datgan fy mod yn cymryd y swydd honno, ac y cyflawnaf ddyletswyddau'r swydd honno yn briodol ac yn ffyddlon hyd eithaf fy marn a'm gallu.

Yr wyf yn ymrwymo i barchu'r cod ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth aelodau… (4) …. ac a allai gael ei adolygu o dro i dro gan Gyngor Cymuned /Tref

Llofnodwyd : ............................................... Dyddiad: ......................

Gwnaed a llofnodwyd y datganiad hwn ger fy mron,

Llofnodwyd: .......................................

Clerc a Swyddog Priodol y Cyngor. (5)

(1) Rhowch enw'r person sy'n gwneud y datganiad.

(2) Rhowch naill ai "aelod" neu "Cadeirydd/Maer" fel sy'n briodol.

(3) (4) Rhowch enw'r awdurdod y mae'r person yn gwneud y datganiad yn aelod neu'n Gadeirydd/Maer ohono.

(5) Pan wneir y datganiad gerbron person arall a awdurdodwyd gan adran 83(3) neu (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nodwch yn rhinwedd pa swydd y mae'r person hwnnw/honno yn derbyn y datganiad.

**Atodiad 2**

**Datganiadau o Fuddiannau**

Mae Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer datganiadau o fuddiannau gan Aelodau.

Os trafodir materion mewn cyfarfod Cyngor, pwyllgor, neu is-bwyllgor sy'n ymwneud â maes y mae gan Aelod fuddiant ynddo, mae'n rhaid iddynt ei ddatgan. Gellir gwneud hyn ar lafar ond dylid ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

Mae'r Model God Ymddygiad yn disgrifio'n fanwl y meysydd hynny y mae'n rhaid i Aelodau ddatgan Buddiant Personol neu Ragfarnol ar eu cyfer. Mae'r Cod yn rhoi enghreifftiau o'r naill a'r llall.

Mae enghreifftiau o Fuddiant **Personol** yn cynnwys unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan yr Aelod, unrhyw glwb preifat, neu gymdeithas sy'n gweithredu yn ardal y Cyngor, y mae'r Cynghorydd yn aelod ohono neu'n dal swydd reoli gyffredinol ynddo; ac aelodaeth o awdurdod cyhoeddus, megis Cyngor arall. Efallai y bydd gan Aelod fuddiant personol mewn mater sy'n cael ei drafod os yw'n debygol o effeithio person a roddodd rodd neu letygarwch iddynt.

Os yw materion o'r fath yn cael eu trafod, dylai'r Aelod dan sylw ddatgan buddiant personol.

Nid oes unrhyw angen i'r Aelod adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno a gallant gymryd rhan yn y drafodaeth ac mewn unrhyw bleidlais.

Pan mae gan Aelod fuddiant personol, mae'n bosib fod ganddynt hefyd Fuddiant **Rhagfarnol** yn y mater hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai aelod o'r cyhoedd a chanddynt wybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn rhesymol yn ei ystyried mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o lywio eu barn. Yn gyffredinol, nid yw aelodaeth o Gyngor arall yn fuddiant rhagfarnol ynddo'i hun ("Aelodau Deuswydd.") Mae'r Cod yn cynnwys cyngor manwl ac yn amlinellu rhai eithriadau a esbonnir yn yr hyfforddiant ar y Cod a ddarperir gan Un Llais Cymru.

Os yw Aelod yn datgan buddiant rhagfarnol, dylent adael y cyfarfod pan mae'r mater hwnnw'n cael ei drafod oni bai y cawsant oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a chymryd rhan yn y drafodaeth ac efallai siarad a phleidleisio. Bydd y llythyr oddi wrth y Pwyllgor Safonau yn esbonio natur yr oddefeb a dylid rhoi copi i'r Clerc.

Weithiau fe welwch gyfeiriadau at fuddiannau ariannol neu anariannol.

Mae buddiannau ariannol yn cynnwys enilliad neu golled ariannol posib, tybiedig neu wirioneddol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd fod rhaid i arian fynd o law i law. Gall buddiannau anariannol ddeillio o berthnasoedd personol neu deuluol nad ydynt yn fuddiant ariannol. O'r herwydd, mae buddiant ariannol yn un rhagfarnol. Mae buddiant anariannol yn debygol o fod yn un personol, ond nid yw hynny'n wir bob tro.

ON, mater i'r Aelod unigol fydd penderfynu a ddylai ddatgan Buddiant. Gall y Clerc gynnig cyngor ar faterion o drefn, ond cyfrifoldeb yr Aelod yw penderfynu a ddylai

ddatgan Buddiant. Os oes ansicrwydd, mae'n well gwneud datganiad. Gan amlaf, dylai'r sefyllfa fod yn glir, ond pan mae ansicrwydd, gallai Aelodau ystyried beth fyddai'r dyn neu fenyw gyffredin yn y stryd yn feddwl? "A oedd yr Aelod yn gweithredu er lles y cyhoedd neu a ydynt yn debygol o elwa o'r penderfyniad mewn unrhyw ffordd?"

Rhaid cofnodi pob datganiad yng nghofnodion y cyfarfod. Dylent eu rhoi hefyd mewn cofrestr, a gedwir gan y Clerc ac a gyhoeddir ar-lein, fel hyn. Nid oes unrhyw reidrwydd ar lefel Cyngor Cymuned neu Dref i Aelodau gyflwyno manylion pob buddiant sydd ganddynt ymlaen llaw fel y mae'n rhaid ar lefel Cyngor Sir, ond nid oes dim o'i le ar wneud hynny a chyflwynwyd trefn o'r fath gan rai Cynghorau.

Mae Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2022 yn cynnig canllawiau clir ar fater datganiadau o fuddiannau a'r materion a drafodir yn y Nodyn hwn. Mae Aelodau "Deuswydd" yn cael eu hannog i astudio adrannau 3.17 i 3.19. Trafodir mater grantiau i fudiadau eraill y gallai Cynghorwyr fod yn aelodau ohonynt ym mharagraff 3.35.

Dylai swyddogion ddilyn gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer swyddogion a dylent hefyd ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt, yn seiliedig ar y meini prawf a ddisgrifiwyd uchod. Ni fyddai rhaid cynnwys y buddiannau hynny yn y gofrestr ar-lein o fuddiannau aelodau ond dylai cofnodion cyfarfod ddangos pryd adawodd swyddog y cyfarfod oherwydd buddiant a ddatganodd.

**Atodiad 3**

# CYNGOR CYMUNED/TREF……………………….

## Model Brotocol ar Berthnasoedd rhwng Aelodau/Swyddogion

Mae ymddiriedaeth a pharch rhwng Cynghorwyr a Swyddogion yn hanfodol i sicrhau llywodraethiant da a bod y Cyngor Cymuned yn cael ei redeg yn esmwyth. I helpu sicrhau nad yw perthnasoedd yn mynd yn anodd cyflwynwyd y polisi hwn i gynnwys:-

- Priod rolau a chyfrifoldebau'r Cynghorwyr a Chlerc y Cyngor Cymuned, ac unrhyw staff eraill;
- Perthnasoedd rhwng Cynghorwyr a Swyddogion;

**1. Cefndir**

1.1 Pwrpas y protocol hwn yw cynorthwyo Cynghorwyr a Chlerc y Cyngor Cymuned/Tref wrth ymdrin â rhai o'r amgylchiadau sensitif sy'n codi mewn sefyllfa waith heriol.

1.2 Caiff enw da ac integriti'r Cyngor Cymuned/Tref eu heffeithio'n sylweddol gan effeithiolrwydd Cynghorwyr, y Clerc a staff eraill yn cydweithio i gefnogi rolau ei gilydd.

1.3 Y nod yw perthnasoedd gwaith effeithiol a phroffesiynol sy'n cael eu nodweddu gan ymddiriedaeth, parch a chwrteisi gan y naill at y llall. Dylid osgoi gor gyfeillgarwch personol.

**2. Rolau Cynghorwyr a Gweithwyr**

2.1 Gellir crynhoi priod rolau Cynghorwyr a gweithwyr fel a ganlyn:

*Mae Cynghorwyr a Swyddogion yn weision y cyhoedd ac maent yn anhepgor i'w gilydd, ond mae eu cyfrifoldebau yn wahanol. Mae Cynghorwyr yn atebol i'r etholwyr ac nid ydynt ond yn gwasanaethu cyhyd ag y mae eu cyfnod yn y swydd yn parhau. Mae Swyddogion yn atebol i'r Cyngor Cymuned/Tref. Eu gwaith yw rhoi cyngor i Gynghorwyr ac i'r Cyngor Cymuned/Tref, a chyflawni gwaith y Cyngor o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Cyngor a phwyllgorau perthnasol.*

2.2 **Cynghorwyr**

2.2.2 Mae gan Gynghorwyr bedwar prif faes cyfrifoldeb:

- Penderfynu polisïau'r cyngor a chynnig arweinyddiaeth i'r gymuned;
- Monitro ac adolygu perfformiad y cyngor wrth ddarparu gwasanaethau;
- Cynrychioli'r cyngor yn allanol; a
- Bod yn eiriolwyr i'w hetholwyr.

2.2.3 Mae gan bob Cynghorydd yr un hawliau a chyfrifoldebau yn eu perthynas gyda Chlerc y Cyngor Cymuned/Tref a gweithwyr eraill, waeth beth yw eu statws neu blaid wleidyddol, a dylent gael eu trin yn gyfartal.

2.2.4 Ni ddylai Cynghorwyr ymhél â'r gwaith beunyddiol o redeg y Cyngor. Cyfrifoldeb Clerc y Cyngor Cymuned/Tref yw hynny, a bydd Clerc y Cyngor Cymuned/Tref yn gweithredu ar gyfarwyddiadau gan y Cyngor neu ei Bwyllgorau, o fewn swydd ddisgrifiad a gytunwyd.

2.3 **Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau**

Mae gan Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau gyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn golygu y gall eu perthnasoedd gyda gweithwyr fod yn wahanol ac yn fwy cymhleth na rhai Cynghorwyr eraill. Er hynny, mae'n rhaid iddynt barhau i barchu amhleidioldeb Swyddogion ac ni ddylent ofyn iddynt wneud unrhyw waith yn ymwneud â phlaid wleidyddol, nac i wneud unrhyw beth fyddai'n effeithio ar eu hamhleidioldeb.

2.4 **Swyddogion**

Rôl Swyddogion yw rhoi cyngor a gwybodaeth i Gynghorwyr a gweithredu'r polisïau a bennwyd gan y Cyngor.

Wrth roi cyfrifoldeb o'r fath i Gynghorwyr, ac wrth baratoi a chyflwyno adroddiadau, cyfrifoldeb y Swyddog yw mynegi eu barn a'u hargymhellion personol eu hunain. Gall Swyddog adrodd ar farn Cynghorwyr unigol ar fater, ond dylai'r argymhelliad adlewyrchu barn y Swyddog ei hun yn unig. Os yw Cynghorydd yn dymuno mynegi barn wahanol ni ddylent roi pwysau ar y Swyddog i wneud argymhelliad sy'n groes i farn broffesiynol y Swyddog, nac erlid Swyddog am gyflawni ei g/chyfrifoldebau.

**3. Disgwyliadau**

3.1 Gall pob Cynghorydd ddisgwyl:

- ymrwymiad gan Swyddogion i'r Cyngor yn gyffredinol, ac nid i unrhyw Gynghorydd unigol, grŵp o Gynghorwyr neu grŵp gwleidyddol;
- partneriaeth weithredol;
- y bydd swyddogion yn deall ac yn cefnogi rolau, llwythi gwaith a phwysau ei gilydd;
- ymateb amserol gan Swyddogion i ymholiadau a chwynion;
- cyngor proffesiynol swyddog, nad yw'n cael ei ddylanwadu gan safbwyntiau gwleidyddol neu hoffterau personol;
- gwybodaeth reolaidd, gyfredol ar faterion y gellir yn rhesymol eu hystyried yn briodol a pherthnasol i'w hanghenion, gan roi ystyriaeth i unrhyw gyfrifoldebau neu swyddi unigol sydd ganddynt;
- y bydd swyddogion yn ymwybodol o ac yn sensitif i'r amgylchedd cyhoeddus a gwleidyddol yn lleol;
- parch, cwrteisi, integriti a chyfrinachedd priodol gan Swyddogion;
- cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i'w helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol;
- na fydd Swyddogion yn codi materion personol gyda nhw y tu hwnt i'r gweithdrefnau a gytunwyd gan y Cyngor;
- na fydd Swyddogion yn defnyddio eu cysylltiad gyda Chynghorwyr i hyrwyddo eu buddiannau personol neu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn amhriodol;
- y bydd Swyddogion yn cydymffurfio yn ddiwahân gyda'r cod ymddygiad perthnasol.

3.2 Gall Swyddogion ddisgwyl gan Gynghorwyr:

- partneriaeth waith;
- dealltwriaeth o, a chefnogaeth i, rolau, llwythi gwaith a phwysau perthnasol;
- arweinyddiaeth a chyfeiriad;
- parch, cwrteisi, integriti a chyfrinachedd priodol;
- na fyddant yn cael eu bwlïo nac yn cael eu rhoi dan bwysau amhriodol;
- na fydd Cynghorwyr yn defnyddio eu swydd neu eu perthynas gyda Swyddogion i hyrwyddo eu buddiannau personol neu fuddiannau pobl eraill neu'n dylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau;
- y bydd Cynghorwyr yn cydymffurfio yn ddiwahân gyda'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

3.3 Rhai Egwyddorion Cyffredinol:

- Gall perthnasoedd personol agos rhwng Cynghorwyr a Swyddogion greu dryswch ynghylch eu priod rolau a tharfu ar y gwaith o gyflawni gwaith y Cyngor mewn modd priodol, yn un peth trwy greu canfyddiad ymhlith eraill fod Cynghorydd neu Swyddog penodol yn cael triniaeth ffafriol;
- Dylid osgoi perthnasoedd arbennig gydag unigolion neu grwpiau pleidiau gwleidyddol penodol gan y gall hynny greu drwgdeimlad fod gweithiwr yn ffafrio'r Cynghorydd neu'r grŵp gwleidyddol hwnnw yn fwy nac eraill.